Prosiect Gweithredu Dros yr Hinsawdd Ecodyfi

darn o adroddiad i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Hydref 2021

Y prif weithgareddau a alluogwyd gan y Cyllid Ychwanegol at Weithredu dros yr Hinsawdd oedd sefydlu cynllun rhannu e-feiciau cymunedol ym Machynlleth a chynllun i helpu i adnabod lle mae cartrefi'n aneffeithlon gan ddefnyddio camera delweddu thermol.

Cyflogwyd Swyddog Hinsawdd (Freya Pryce) gan ecodyfi i weithio ddeuddydd yr wythnos i sefydlu cynllun camerâu thermol a'r cynllun e-feiciau ac i roi hwb i Gweithredu dros yr Hinsawdd Machynlleth a gweithgareddau ecodyfi sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd oedd eisoes yn eu lle.

Swydd newydd oedd hon. Ysgogwyd ecodyfi gan y Cyllid Ychwanegol dros yr Hinsawdd o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i dynnu arian wrth gefn er mwyn estyn hyd y contract hwn i 12 mis (gan ddod i ben ym mis Mehefin 2022).

Cynllun rhannu e-feiciau

Fe wnaethon ni sefydlu cynllun rhannu e-feiciau i ardal Machynlleth gan anelu at leihau nifer ein siwrneiau mewn ceir a gwella symudedd pobl wrth godi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a phrofiad o e-feiciau. Golygai hyn waith ymchwil a phrynu 1 e-feic newydd a 2 e-feic wedi'u trawsnewid, yn ogystal â geriach diogelwch beicio, rhestlau basgedi a sied feiciau ddiogel. Fe ddewison ni gymysgedd o e-feiciau newydd a rhai wedi'u trawsnewid er mwyn i bobl gael rhoi cynnig ar bob dewis cyn prynu eu beic eu hunain (os mai dyna'r ysfa). Ein blaenoriaeth oedd beiciau a fyddai'n ddefnyddiol yn bennaf ar y lôn ond a allai hefyd fynd ar hyd llwybrau gro. Mae hyn oherwydd ein gobaith yw y gallai e-feiciau ddisodli defnyddio ceir gan leihau allyriadau (dyma oedd ein blaenoriaeth yn hytrach na dewis beiciau mynydd sydd at weithgarwch hamdden yn bennaf).

Freya yn casglu'r e-feic cyntaf oddi wrth Bike to the Future, Y Drenewydd

Seiliwyd y dewisiadau hyn a ffurf gyffredinol y cynllun gan y trafodaethau hynod fuddiol a gawsom â'n Mentor Beth Ward o Drosi Beiciau a ddarparwyd drwy Adfywio Cymru.

> *"Rhoddais i gynnig ar yr e-feic ac fe wnaeth o wir fy helpu i ddringo'r rhiwiau! Dw i'n meddwl y byddai cael e-feic yn gadael i mi fynd rhwng adre a'r dre gyda fy mabi ar y cefn a negesau trwm - siwrneiau dw i 'mond yn eu gneud efo'r car ar hyn o bryd"* - Ali

Mae Beth hefyd yn mentora Beicio Dyfi wrth iddynt arallgyfeirio a datblygu. Nhw a drawsnewidiodd y ddau feic ail-law (a roddwyd i Beicio Dyfi i'w hailwampio a'u hail-osod) ac rydyn ni wedi'u contractio i ddarparu rhaglen cynnal a chadw i'r e-feiciau.

Effeithlonrwydd ynni yn y cartref

Fe brynon ni 2 gamera thermol (Flir ONE) i bobl gael gweld lle mae gwres yn dianc o'u cartrefi ac adeiladau eraill. Offeryn yw hwn i agor trafodaethau am effeithlonrwydd ynni ac mae ganddo'r swyddogaeth hynod ymarferol o adnabod y prif fannau lle mae angen gwelliannau yng nghartrefi pobl. Newydd ei lansio'n gyhoeddus y mae'r camera thermol, oherwydd dim ond yn ddiweddar y mae'r tywydd wedi mynd yn ddigon oer i weld cyferbyniadau sylweddol rhwng mannau dan do a'r awyr agored.

Yn ystod ychydig ddyddiau cyntaf ei lansio, cafwyd cryn ddiddordeb gan gynnwys gan bobl sydd erioed wedi ymgysylltu â gweithredu dros yr hinsawdd yn lleol. Mae'r camerâu'n cael eu benthyca gan unigolion, grwpiau o gymdogion, grwpiau ieuenctid ac ysgolion.

> *"Dim ond gair i ddiolch am roi'r camera isgoch ar fenthyg i mi. Roedd yn ddadlennol cael gwybod bod ein ffenestri gwydr triphlyg a dweud y gwir yn gollwng mwy o wres drwy eu fframiau na'r gwydr. Do'n i ddim yn disgwyl hynny. Diolch am gynnig cynllun mor wych gyda gwasanaeth gwych hefyd. Llawer o ddiolch"* - Dan

Mae'r Swyddog Hinsawdd wedi cydweithio â gweithgor 'Ynni mewn Adeiladau' Gweithredu dros yr Hinsawdd Machynlleth i ddatblygu'r cynllun camerâu thermol.

Ar y cyd â'r cynllun camerâu delweddu thermol, bu'r Swyddog Hinsawdd yn cefnogi Hyrwyddwr Ynni o'r Rhwydwaith Arbedion Ynni Mawr i helpu pobl i leihau biliau ynni (gyda tharged o gynorthwyo 100 o bobl, Hydref 2021 - Mawrth 2022). Mae'r Swyddog Hinsawdd yn helpu Hyrwyddwr Ynni'r Rhwydwaith i roi hysbys am beth mae'n ei gynnig a gallant gyfeirio pobl at gynlluniau ei gilydd i gael cefnogaeth ychwanegol.

Cefnogaeth i weithredu gwirfoddol dros yr hinsawdd

O ran cynorthwyo Gweithredu dros yr Hinsawdd Machynlleth, mae'r Swyddog Hinsawdd wedi cyhoeddi 'Cylchlythyr Gweithredu dros yr Hinsawdd Machynlleth', wedi cyfrannu i'r wefan, wedi ail-lansio'r Grŵp Bioamrywiaeth a'r Grŵp Ynni mewn Adeiladau ac wedi creu digwyddiad 'Sgyrsiau am yr Hinsawdd'. Mae'r camau hyn wedi dwyn mwy o aelodau o'r

gymuned i ymgysylltu â gweithgarwch dros yr hinsawdd a bioamrywiaeth ac wedi atgyfodi grwpiau oedd wedi mynd i gysgu yn ystod y pandemig.

http://www.climate.machynlleth.wales/

Bu'r Swyddog Hinsawdd yn trefnu ac yn cydlynu'r digwyddiad cyhoeddus ym Machynlleth, 'Ein Cymuned, Ein Hinsawdd' ar gyfer taith Hinsawdd Cymru drwy Gymru cyn COP26.

Trefnwyd hyn ar y cyd â staff ac aelodau gwirfoddol eraill o ecodyfi (yn rhannol drwy'r prosiect Trywydd Iach – hefyd wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol) a chan wirfoddolwyr eraill yn y gymuned. Daeth yn rhan allweddol o ddiwrnod o ddigwyddiadau a drefnwyd rhwng Aberystwyth a Machynlleth yn ymgyrchu dros fwy o lwybrau cerdded a beicio a rhai saffach rhwng yr holl gymunedau ar hyd y llwybr hwnnw. Llwyddodd y digwyddiad i ddod â thros 200 o bobl ynghyd i ymgysylltu â'r hyn y mae grwpiau gweithredu dros yr hinsawdd a'r amgylchedd yn ei wneud yn lleol, yn ogystal ag anfon negeseuon i'r digwyddiad yn Glasgow.

Mae'r Swyddog Hinsawdd wedi ceisio cynnwys rhannau o'r gymuned nad ydynt wedi cymryd rhan mewn gweithredu dros yr hinsawdd yng ngwahanol fentrau'r prosiect hwn. Un enghraifft o hyn yw'r cydweithrediad cadarnhaol wrth greu'r sied feiciau gan berchennog busnes lleol (sy'n cynnig y lle), adeiladwyr lleol ac iard goed, cwmni ynni solar ac aelodau eraill o'r gymuned yn cynnig cyngor a chefnogaeth.

Rydyn ni wedi cael ein hysbrydoli i chwilio am help i wneud yn siŵr fod y cynllun e-feiciau'n parhau'n llwyddiannus y tu hwnt i'r cyfnod cyllid hwn. Er enghraifft, rydyn ni'n ceisio cyllid am gydlynydd e-feiciau. Fe ymddengys mai e-feiciau wedi'u trawsnewid sy'n cynnig gwell gwerth am arian a'r rhain yw'r dewis mwy ecolegol nag e-feiciau newydd sbon, gan ei fod yn bosibl defnyddio hen feic a gallwch brynu batri a motor mwy pwerus am eich pres nag sydd mewn e-feic newydd a fyddai'n costio rhywbeth tebyg. Maen nhw hefyd yn haws eu trwsio.

Rydyn ni am ehangu'r cynllun camerâu thermol er mwyn gallu cynnig mwy o gefnogaeth i bobl wrth wella effeithlonrwydd ynni adeiladau, er enghraifft drwy drefnu bod pobl brofiadol ar gael i gynnig cyngor un i un a/neu asesiad ynni cartref.

https://www.ecodyfi.cymru/gweithreduhinsawdd